# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com @LlaisLlandyrnog

Rhagfyr 2023 – Cyfrol 9 – Rhifyn 3

## Eisteddfod Llandyrnog

Roedd pawb yn siomedig iawn â'r penderfyniad anodd i ganslo'r Eisteddfod yn sgil storm Babet oherwydd roedd hi'n argoeli i fod yn eisteddfod dda iawn a nifer dda yn bwriadu dod i gystadlu. Yn ffodus, roedd y gwaith Celf a Llenyddiaeth wedi ei feirniadu. Diolch i Haf Evans, Henllan am feirniadu'r Llenyddiaeth – cafodd dros 180 o ddarnau i'w darllen ac i Nia Davies Cefn Meiriadog am feirniadu'r gwaith celf – dros 300 o gampweithiau wedi dod i law! Enillydd y Gadair oedd Beca Evans, Sgubor Efa, Llandyrnog, ac roeddem fel pwyllgor yn teimlo y byddai'n braf cael ei hanrhydeddu. Felly, ar ddechrau cyfarfod o Gymdeithas Capel y Dyffryn nos Lun, Hydref 30 cawsom seremoni i gyflwyno cadair fechan iddi. Canodd Lona Meleri Gân y Cadeirio a phawb yn ymuno yn y cwpled olaf. Diolchwyd i Mary Mars Lloyd am greu clogyn cadeirio urddasol ac Elwyn, Ger y Llan am wneud y gadair hardd. Edrychwn ymlaen at Eisteddfod 2024!





*Steffan Rhys Davies, Dre Goch Isa ddaeth yn gyntaf yn y gystadleuaeth Llenyddiaeth Blwyddyn 5 a 6 gyda'i stori, 'Mynd am Drip'.*

Nadolig Llawen i'n holl ddarllenwyr



*Mabon Dafydd, Groes Efa Bach ddaeth yn ail allan o dros 60 o ymgeiswyr yn y gystadleuaeth arlunio Blwyddyn 3 a 4 – Noson Tân Gwyllt.*



# Pytiau newyddion y pentre

**Croeso** i Jordan Oldbury a Grace Wynne Williams a'u babi Freddie sydd wedi dod i fyw i Green Farm. Gobeithiwn y byddwch yn hapus iawn yma.

**Llongyfarchiadau…**

… i Tomos Roberts ar lwyddo yn dy brawf gyrru, fydd dim stop arnat ti rŵan!

... i Llinos ac Owain Williams, Clwyd Bank, ar enedigaeth eu mab, Nedw Gruffydd, brawd bach i Gwilym a Caio;

... i Huw a Mari Williams, Maes Tyrnog, ar gwblhau Marathon Eryri, un o'r marathonau anodda.

**Pen blwydd hapus:** Wnawn ni ddim datgelu unrhyw fanylion, ond pen blwydd hapus hwyr i Buddug Foulkes ac Olga Evans.

**Cydymdeimlwn** â theulu Alex (Jock) Sinclair o Awel y Dyffryn, Denbigh (gynt o Langwyfan a Llandyrnog) a fu farw yn 89 oed, ac â theulu Vaughan Lloyd, Penrhyn.

Roedd hi hefyd yn drist clywed am farwolaeth David Benton a oedd wrth ei fodd â Llandyrnog. Cydymdeimlwn â'i weddw, Glenna a'i blant, Helen and Mark.

**Dymuniadau da** i Gwilym Evans ar ôl ei lawdriniaeth yn yr ysbyty.

Fydda i ddim yn anfon cardiau Nadolig eleni – felly dyma ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i fy holl deulu, ffrindiau a chymdogion.
*Wyn Wilson*

Cyfarchion y tymor i'n holl ffrindiau yn y pentref a thu hwnt.
*Bryn ac Anwen, Bryn Ffolt.*

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i fy holl ffrindiau a chymdogion.
*Margaret, Awel y Foel.*

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Sadwrn | 2il | Grŵp crefftau, 10am–4pm |
| Sul | 3ydd | Digwyddiad preifat – parti pen blwydd, 9am–2pm |
| Llun | 4ydd | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30–9.30pm |
| Sadwrn | 9fed | Digwyddiad preifat – parti pen blwydd, 2pm–5pm |
| Sul | 10fed | Llan Llanast 3.30–5pm |
| Llun | 11eg | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30–9.30pm |
| Sad | 16eg | Ffair grefftau, 9am–4pm |
| Llun | 18fed | Brownies 5.30–7pm |

**I hurio'r neuadd, cysylltwch ag Ivan Butler ar 07799 570549 neu ar e-bost: ivanbutler897@btinternet.com.**



Mae Neuadd y Pentre wedi bod yn brysur yn ddiweddar gyda'r boreau coffi hynod boblogaidd (y ddau ddiwetha wedi codi £555 at Cancer Research UK a £280 at y Gymdeithas Hanes). Mae wedi bod yn hyfryd gweld y digwyddiadau hyn yn denu pobl o'r tu hwnt i'r cyffiniau – mae grŵp o feicwyr, hyd yn oed, wedi galw i mewn wrth fynd heibio. Mae menter newydd wedi bod ynddi hefyd, sef y ffair grefftau. Roedd hon mor llwyddiannus, bydd un arall ddydd Sadwrn, 16 Rhagfyr, i roi cyfle i chi brynu anrhegion Nadolig.

**Ymweliad Sion Corn dan nawdd y Ford Gron**

Bydd Sion Corn yn ymweld â Llandyrnog nos Iau, 14 Rhagfyr. Edrychwch ar Facebook i gael amcan o'r amser.



# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Llun | 4ydd | Trefoil Guild, 2pm |
| Mawrth | 5ed | Cyfarfod Pwyllgor Llais Llandyrnog, 7pm |
| Mawrth | 12fed | Clwb Llyfrau, 10–11am |
| Mercher | 13eg | Undeb y Mamau, 2pm |
| Mawrth | 19eg | Cyngor Cymuned, 7pm |

*I logi'r Ystafelloedd Coco, anfonwch e-bost at Mrs Emily Williams: emilylloyd1@tiscali.co.uk*

**Gwasanaethau Rhagfyr yn yr eglwys**

| | | |
|---|---|---|
| 3ydd | 11.15 | Cymun bendigaid |
| 10fed | 11.15 | Cymun bendigaid |
| | 15.30 | Llan Llanast yn Neuadd y Pentre |
| 17eg | 3.15 | Gwasanaeth Christingle |
| 24ain | 5.15 | Gwasanaeth y preseb |
| 25ain | 10.00 | Cymun bendigaid |
| 31ain | 10.30 | Gwasanaeth yr Ardal Genhadu: Cymun bendigaid yn Eglwys y Drindod Sanctaidd, Trefnant |
| | 15.00 | Gosber Gymraeg yr Ardal Genhadu ar y cyd â Dyffryn Clwyd: Gosber Gymraeg yn eglwys St Pedr, Llanbedr Dyffryn Clwyd |

# Trefoil Guild

Ym mis Tachwedd, cafwyd sgwrs ddiddorol gan Chris Wykes yn sôn am ei thaith ar hyd y bererindod i Santiago de Compostela yn Sbaen.

Cafodd trefniadau eu gwneud i osod coeden Nadolig yn eglwys Trefnant ar gyfer ei gŵyl,ac ar gyfer ein cinio Nadolig yng Nghlwb Golff Dinbych. Bydd ein cyfarfod nesaf ym mis Chwefror, y dyddiad i'w gadarnhau.


**Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu erthyglau at y rhifyn hwn**

# Llan Llanast

Roedd ein sesiwn mis Tachwedd ar Sul y Cofio, a dysgom ni pam ein bod ni'n gwisgo pabïau i gofio am y bobl gafodd eu lladd yn ystod y rhyfel. Dysgom ni hefyd ei bod hi'n bwysig ein bod ni'n cofio cymaint o dristwch mae rhyfel yn ei achosi, a cheisio dod o hyd i ddulliau sy'n dod â heddwch i'n byd. Buom ni hefyd yn gwneud pabïau o bob math, yn cynnwys pom-poms a hancesi papur, yn addurno bisgedi siâp pabi, ac yn gwneud llyfrnodau a darlun hyfryd fydd yn cael ei osod yn yr eglwys er mwyn i bawb ei weld.

Bydd ein sesiwn nesaf ddydd Sul 10 Rhagfyr am 3.30pm pan fyddwn ni'n clywed unwaith eto stori geni'r Iesu y Nadolig cyntaf hwnnw. Croeso i bawb ymuno â ni, ond blant, cofiwch ddod ag oedolyn gyda chi i ymuno yn yr hwyl.

*Mary Steel*




**Cyngor Sir Ddinbych**

**Merfyn Parry**



Manylion cyswllt:

Ffôn: 07836 208446

*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*

*Neu gadewch neges ar Facebook*

# Tuesday Club



Yng nghyfarfod mis Tachwedd daeth Mr Ian Jolly atom i sôn am ei gasgliad o hen ffonau. Roedd Mr Jolly, o Fryn-y-Baal, yn swyddog technegol gyda'r Swyddfa Bost Gyffredinol cyn ymddeol, ac mae wedi bod wrthi'n hel hen ffonau a chyfarpar drwy gydol ei yrfa.

Soniodd i ddechrau am ragflaenydd y system ffonau, sef y system delegraff a oedd yn defnyddio semaffor. Cafodd hon ei thrydaneiddio, â'r datblygiad nesa oedd y teliffon.

Dangosodd enghreifftiau o ffonau drwy'r degawdau i ni, o'r math canhwyllbren roedd yn rhaid eu cysylltu â'r gyfnewidfa i ffonio rhywun, i'r rhai du *bakelite* roeddech chi'n gallu deialu'r rhif eich hun arno. Wedyn daeth y ffonau sgleiniog lliwgar, a'r deial yn newid i fod yn un pwyso botymau. Roedd yr aelodau wrth eu boddau'n gweld y peiriant botymau A a B a fyddai mewn ciosg ers talwm, gan hel atgofion am fferru mewn ciosg wrth ffonio anwyliaid.

Diolchwyd i Mr Jolly am sgwrs hynod ddiddorol. Cafodd pawb baned a thynnwyd y raffl. Edrychwn ymlaen at ein cinio Nadolig yn y Drovers Arms, Rhewl.

Bydd y cyfarfod nesaf yn yr Ystafelloedd Coco ddydd Mercher, 16 Ionawr. Croeso cynnes i aelodau newydd.

# Emyr yn ymweld â Rhif 10

Yn dilyn gwahoddiad gan y Gweinidog Ffyniant Bro, y Gwir Anrhydeddus Michael Gove, AS, gyda Dr James Davies, AS, roedd yn bleser mynychu derbyniad yn 10 Stryd Downing i gynrychioli ein prosiect.

Roedd y dderbyniad yn cydnabod prosiectau llwyddiannus a oedd wedi cael grantiau gan yr Adran Ffyniant Bro. Dyma'r cronfeydd, ynghyd â grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, sy'n ein galluogi i brynu ac adnewyddu'r Siop a Swyddfa'r Post.

Roedd yn gyfle i gyfarfod a siarad â threfnwyr amrywiaeth o brosiectau eraill a gosod ein prosiect ein hunain a Llandyrnog yn gadarn ar y map.

Mae'r dyddiad cwblhau prynu yn nesáu ac mae disgwyl iddo ddod yn ystod yr wythnosau nesaf. Mae materion hefyd yn datblygu'n dda o ran ymgysylltu â phensaer a rheoli prosiectau'r gwaith adnewyddu. Diolch i chi, fel erioed, am eich cefnogaeth a'ch amynedd wrth i ni weithio tuag at gwblhau'r gwaith hwn. Unwaith y bydd gennym yr adeilad yn ein meddiant bydd llawer mwy o gyfleoedd i drigolion lleol gynorthwyo gyda'r prosiect. Byddai'n dda clywed gan unrhyw un a hoffai wirfoddoli, yn arbennig helpu yn ystod y cyfnod adnewyddu a gwelliannau (os yw eich enw gennym eisoes, byddwch yn sicr y byddwn yn cysylltu â chi!).

*Emyr Morris*

# Hwb Llandyrnog

Roedd tipyn o gyffro ym mhafiliwn Cae Nant pan oedd yr Hwb ar agor ym mis Tachwedd, ac roedd hi'n hynod brysur. Roedd yr ymateb a gafwyd wedi plesio merched yr Hwb yn fawr a bydd yr un nesaf ar agor ddydd Mercher, 20 Rhagfyr. Bydd naws y Nadolig i'r achlysur, gyda mins peis a phwnsh cynnes, yn ogystal â'r lluniaeth arferol. Bydd unrhyw gyfraniad yn cael eu rhoi i Fanc Bwyd Dyffryn Clwyd. Edrychwn ymlaen at eich gweld ddydd Mercher, 20 Rhagfyr rhwng 11 y bore a 3 y prynhawn.

# Cymdeithas Hanes Llandyrnog a Llangwyfan

***Ffoaduriaid Castell Gwrych, Abergele***


Andrew Hesketh oedd y siaradwr gwadd fis Hydref, ac roedd yn sôn am hanes nad oes llawer o bobl yn gwybod amdano – bod 200 o blant a phobl ifanc Iddewig o Ewrop wedi eu cludo ar y *Kindertransport* ychydig cyn dechrau'r Ail Ryfel Byd i Gastell Gwrych, Abergele er diogelwch, i ffoi rhag y Natsïaid oedd yn eu herlid.

Roedd y Natsïaid wedi ymosod yn barod ar yr Iddewon yn Awstria a'r Almaen ar noson y *Kristallnacht* (noson y torri gwydr), Tachwedd 1938. Ddechrau 1939, penderfynwyd anfon llawer o blant a phobl ifanc Iddewig i Brydain, ac, o'r 200 ddaeth i Gastell Gwrych, roedd y 31 olaf ar y *Kindertransport* olaf ddaeth allan o'r Almaen yn fyw – lladdwyd y gweddill. Wedi setlo yno, roedd yr arweinwyr yn benderfynol o efelychu'r *Kibbutz* Iddewig a dechreuwyd cynllun hyfforddiant amaethyddol llwyddiannus – yr *hachshar*a.

Doedd dim llawer o gysur yn y castell – roedd llawer o'r adeiladau'n adfeilion a'r cyflenwad dŵr a thrydan yn anwadal. Ond, gyda chymorth lleol a chwmni Marks and Spencer, gwnaethpwyd y lle yn weddol gyfforddus a diogel.

Roedd y plant a phobl ifanc yno'n disgwyl mynd yn ôl at eu rhieni, ac efallai cyrraedd Gwlad yr Addewid hyd yn oed, gan eu bod yn Seioniaid selog (*Zionists*). Ond wrth gael eu croesawu yno'r diwrnod 1af, cawsant wybod bod rhyfel wedi torri allan – welodd y mwyafrif ohonynt mo'u rhieni byth eto.

Am y tro cyntaf yn eu hanes fel Iddewon, cawsant flas ar ryddid yng Nghastell Gwrych, dysgu sgiliau newydd a dechrau integreiddio i mewn i gymuned gyfeillgar Abergele. Dysgwyd sgiliau fel gwaith coed, gwneud cloeon, coginio, trin gwallt, ar wahân i sgiliau amaethyddol iddyn nhw – yn wir, oni bai am eu help nhw ar ffermydd yr ardal yn llenwi bylchau'r hogiau oedd wedi mynd i ryfel, buasai cynhyrchu bwyd wedi bod yn anodd dros ben.




Ond byr fu eu harhosiad. Yn araf deg, yn ystod hanner olaf 1941, aethpwyd â'r ffoaduriaid i ganolfannau eraill, neu roedden nhw'n gadael yn 18 oed i ddechrau sefyll ar eu traed eu hunain.

Llwyddodd Andrew i gael gafael ar rai ohonynt a chael sgyrsiau am amodau byw yn y castell, y gymdeithas arbennig hunangynhaliol oedd yno, a'r ffordd y gwnaethon nhw ymdoddi'n rhan o'r gymuned. Dyma ddywedodd un cyn-ffoadur wrtho: "*Mi roddodd Castell Gwrych fywyd newydd i ni, a theimlem beth oedd rhyddid o'r diwedd. Byddwn yn teimlo diolchgarwch mawr drwy'n hoes i genedl y Cymry.*"

Cyhoeddwyd *Escape to Gwrych Castle: A Jewish Refugee Story* ym mis Mehefin 2023. Mae ar gael mewn sawl siop lyfrau, gan gynnwys The Bookshop, Mold, a gallwch ei archebu ar-lein.

Mae croeso i bawb i ymuno â'r Gymdeithas Hanes (£8 am bedwar cyfarfod neu £3 am un, a phaned a lluniaeth. Am fwy o wybodaeth – llangwyfanhistory@hotmail.com**.**

# Sul y Cofio

Cafwyd seremoni goffáu ar Sul y Cofio y tu allan i eglwys St Tyrnog, yn ôl yr arfer, a gosodwyd nifer o dorchau. Cynrychiolydd y Cyngor Cymuned oedd y Cynghorydd John McGuire. Yn absenoldeb y Cynghorydd Sir, Merfyn Parry, Mr Ethan Plumb a gosodwyd torch Cyngor Sir Ddinbych gan Mr Ethan Plumb. Hefyd, bu plant Ysgol Bryn Clwyd yn coffáu Peter Edwards a gafodd ei ladd yn Ynysoedd Falkland.




J & G

TYRE SERVICES



CAR - TRUCK -

FARM TYRE SPECIALISTS

BATTERIES & EXHAUSTS

Unit 1

Dyffryn Trading Estate

Rhyl Road

Denbigh

LL16 5SJ

01745 817676

07775 717602


Ond a wyddech chi fod bedd milwr a fu farw yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf ger giât mynwent eglwys Llangwyfan? Hwn yw un o'r ychydig feddi unigol mae'r Comisiwn Beddau Rhyfel yn eu cynnal. Dyma fan gorffwys Preifat Thomas Charles Jones a fu farw'n 19 oed ar 6 Mai 1916. Ni chafodd Preifat Jones ei ladd gan y gelyn wrth ymladd, ond bu farw o'r clefyd coch – clefyd hynod o heintus y dyddiau hynny – a aeth fel corwynt trwy ei wersyll.

Cafodd ei gorff ei anfon adref ar drên, ond pan gyrhaeddodd yr arch orsaf rheilffordd Dinbych, sylwodd ei rieni mai enw milwr arall oedd arni. Mae'n debyg bod dau gorff wedi'u hanfon adre y diwrnod hwnnw, y naill i Fanceinion a'r llall i Ddinbych. Rywsut cymysgwyd rhwng y ddau. Roedd yn rhaid i'r rhieni, a'u calonnau'n torri, ddychwelyd i Langwyfan heb gorff eu hannwyl fab. Cyrhaeddodd yr arch iawn ar drên diweddarach a chafodd Preifat Jones ei gladdu yn y fynwent y diwrnod wedyn.



# Hanesion Hazel

Mae Rhagfyr yn fis i swatio'n gynnes a bwyta bwydydd cysurlon, fel cawl, pastai'r bugail a fy ffefryn, cawl brocoli a chaws stilton gyda bara surdoes. Daw bywyd i'r nosweithiau tywyll gydag addurniadau disglair ar y tai yn ein cymdogaeth. Pan wela i'r goeden fawr yn cael ei chodi y tu allan i'r eglwys a'i holl oleuadau, rwy'n gwybod bod tymor y dathlu wedi dechrau go iawn.

Beth rydyn ni'r garddwyr yn gwneud yr adeg hon o'r flwyddyn heblaw am bori trwy gatalogau hadau? Tocio coed a gorchuddio'r pridd â dail. Pan mae'r coed heb eu dail, mae'n hawdd gweld tyfiant marw, wedi'i ddifrodi neu wedi'i heintio, a rhaid ei dorri.

Roedd yr adeg hon yn arfer bod yn adeg tacluso'r ardd ar gyfer y gaeaf, ond heddiw dydw i ddim yn poeni gymaint am y tacluso. Mae ambell ddarn blêr yn ardderchog i fywyd gwyllt ac yn ffynhonnell fwyd werthfawr i adar. Y cwestiwn mawr ar hyn o bryd ydy a ddylid hel at ei gilydd ddail sydd wedi syrthio, neu eu gadael i'w pydru'n naturiol.

Mae ffordd o feddwl sydd wedi dod yn boblogaidd yn ddiweddar, sef 'Gadewch y dail'. Mae hon yn ein hannog i beidio â hel y dail oddi ar ein lawntiau a'n gerddi. Yn y trefi, y teimlad ydi bod gormod o ddail yn cael eu rhoi mewn bagiau bin a'u danfon i'r safle claddu sbwriel. Y gred yw bod eu gadael nhw i bydru'n naturiol dros y gaeaf yn rhoi deunydd organig da sy'n llesol i bryfed. A allwn ni roi'r gorau i ddefnyddio'r rhaca? Ydi hyn yn syniad da neu'n syniad gwael?

Mae dail ar lwybrau yn broblem iechyd a diogelwch, oherwydd eu bod yn gwneud y llwybrau'n llithrig. Felly mae angen codi'r rhain. Gall llawer o ddail ar eich lawnt wneud niwed iddo, drwy ei fygu wrth iddyn nhw greu gorchudd o ddeunydd trwm a allai gymryd blynyddoedd i ddadelfennu'n iawn. Dwi'n defnyddio fy mheiriant torri glaswellt heb y bocs arno i'w malu ac maen nhw'n pydru'n gyflymach i wneud deunydd llesol i'r lawnt.

Dwi wedi sylwi bod ambell un yn defnyddio peiriant chwythu dail, ydi hyn yn helpu? Yn fy marn i, y cyfan mae hwn yn ei wneud yw chwythu'r broblem i fan arall. Gall tywydd gwyntog eu chwythu i gornel a gallwch eu codi â llaw a'u rhoi yn eich bin compost i wneud deilbridd – *leaf mould*. Y dail gorau i wneud deilbridd yw dail y dderwen a'r ffawydden. Dail wedi'u dadelfennu'n araf gan ffyngau yn hytrach na bacteria yw deilbridd ac felly'n arbennig o lesol i'r pridd. Ond yn fy ngardd i mae'r rhan yma yn denu'n ieir llwglyd sy'n mwynhau chwilio am gynrhon a phryfed genwair ac maen nhw'n chwalu'r dail yn ôl dros y lawnt beth bynnag. Hefyd, mae dail yn cael eu chwythu i mewn fy ystafell olchi – mae deilen dderwen ynddi yr adeg hon o'r flwyddyn er gwaethaf fy ymdrechion i'w rhwystro.

Mae'n bwnc dadleuol, ond beth bynnag y gwnewch chi gyda'ch dail, mwynhewch eu lliwiau hyfryd cyn iddyn nhw ddisgyn, ond nid yn eich gardd, gobeithio.

Hazel



# Neges gan ein hoffeiriad

Yng nghalendr yr eglwys, mae’r flwyddyn Gristnogol gyda’i holl wyliau yn dechrau o’r newydd ddydd Sul, 3 Rhagfyr wrth i ni ddechrau tymor Adfent. Tymor i ni edrych yn fanylach ar ein ffydd, y Beibl a gweddïau yw tymor yr Adfent, a chyfle i ni ystyried ein hunain o ddifri. Mae hyn yn para tan ddydd Nadolig, pan mae tymor y Nadolig yn dechrau go iawn fel adeg i ddathlu, rhyfeddu a llawenhau tan 2 Chwefror – Gŵyl Fair y Canhwyllau. Yr adeg hon rydyn ni’n cofio am Iesu yn mynd i’r deml yn blentyn ar gyfer Gŵyl Puro’r Forwyn Fair Fendigaid (darllenwch Luc 2: 22-40).

Disgwyl ydi thema Adfent. Yn y gymdeithas, mae fel petai pobl yn mynd yn fwy a mwy anfodlon disgwyl. Ac yn fwy felly wrth i dechnoleg a darpariaeth ruthro yn eu blaenau. Mor hawdd ydi agor ap ar y ffôn ac archebu nwyddau i’w danfon at ein drws y diwrnod wedyn. Mae cael pethau mor gyflym yn gwneud i ni ddisgwyl yr un cyflymdra ym mhob maes yn ein bywyd.

Mae’r mathau eraill o ddisgwyl yn cynnwys rhai llawn pryder, fel aros am ganlyniadau arholiadau, neu yn waeth byth, disgwyl clywed newyddion gan ddoctoriaid am salwch difrifol. Ond hefyd mae adegau o ddisgwyl llawen, fel disgwyl rhannu’r newyddion am fabi newydd, neu gael yr allweddi i’ch tŷ cyntaf.

Dydi disgwyl yn nhymor Adfent ddim yn debyg i hyn, mae’n ddisgwyl heddychlon iawn i Gristnogion wrth iddyn nhw meddwl a myfyrio ar ddyfodiad Iesu Grist. Gallwn fod yn ddisgwylgar a chael yn calonogi gan ddaioni Duw a gwirionedd cariad Duw dros bawb.

Ar ddechrau tymor yr Adfent, edrychwch ar y ffydd Gristnogol ac ystyriwch rywbeth newydd amdani. Mae nifer o bobl nad ydyn nhw’n dod yn rheolaidd i’n gwasanaethau, yn dod i’n heglwysi yr adeg hon o’r flwyddyn. Efallai eich bod chi’n un ohonyn nhw. Edrychwch ar lyfr yr Esgob Gregory, *An Advent Book of Days*, sy’n ystyried cymeriadau Stori’r Nadolig bob dydd, neu lyfr yr Archesgob Andy John, *The Word was God, Short Reflections for Advent*. Mae hwn yn cynnig sylwadau byr sy’n eich helpu i ddisgwyl y tymor, ei wylio a synnu ato. Mae pob math o adnoddau ar gael – chwiliwch ar wefan BRF sy’n cyhoeddi llyfrau am Adfent ac yn cynnig detholiad o lyfrau tebyg yr adeg hon o’r flwyddyn.

Edrychwn ymlaen at eich gweld rywbryd yn ystod y mis hwn yn un o’n heglwysi yn Ardal Genhadu Dinbych a gobeithiwn eich bod yn cael tymor Adfent diogel a da, a Nadolig llawen iawn.

*Parch. Martin Pritchard*




DBP
Denbigh
Building
Plastics

*SUPPLIERS & INSTALLERS*

*U_PVC windows, doors, rockdoors, secondary double glazing, sealed units. Conservatories, porches, garage doors, fascias, gutters, dry verge system, Firestone rubber roofing and canopies.*

Unit 7
Colomendy Industrial Estate
Denbigh LL16 5TA
01745 818849
**Open Mon—Fri 7.30am—5 pm**
**Sat 9 am—12 pm**

# Gwinllan y Dyffryn

Cawsom gynhaeaf mawr iawn eleni gyda dros ddeuddeg tunnell fetrig o rawnwin yn cael eu cynaeafu dros chwe penwythnos. Carwn ddiolch yn fawr i bawb o'r gymuned ddaeth i'n helpu ar sawl diwrnod prysur o'r cynhaeaf – rydym yn hynod ddiolchgar am eich help.

Aethom i Winllan Llanerch ym Mro Morgannwg ar gyfer Noson Wobrwyo Tlysau Gwinllannoedd Cymru ddechrau mis Tachwedd. Eleni roedd dros 50 o winoedd wedi cael eu cyflwyno i'r pedwar beirniad. Roedd o'n sioc ac yn anrhydedd i dderbyn y wobr am y gwin pefriog *rosé* gorau o Gymru. Hwn ydy'r gwin pefriog cyntaf i ni ryddhau a chafodd y grawnwin eu cynaeafu yn 2021, felly mae'n broses hir i gynhyrchu gwin pefriog yn y dull traddodiadol yma, ond mae wedi bod yn werth aros gan i'r gwin hefyd gael ei wobrwyo â medal aur – yr un gyntaf i'n gwinllan. Mae wedi bod yn bleser croesawu cannoedd o ymwelwyr i'r winllan dros yr haf. Diolch i bawb sy wedi ymweld â ni ac am y gefnogaeth gan ein cymuned leol. Rydym yn edrych ymlaen at eich croesawu yn ôl eto yn fuan.

*Gwen Davies*



*Gwen a Rhys yn derbyn y wobr aur gan Andy Mounsey, Cadeirydd Cymdeithas Gwinllannoedd Cymru a Deiniol ap Dafydd o Blas ar Fwyd, Llanrwst.*

**James Davies, AS Dyffryn Clwyd**
james.davies.mp@parliament.uk
Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920
Swyddfa San Steffan: 0207 2194606

# Capel y Dyffryn

**Gwasanaethau mis Rhagfyr**

| | | |
|---|---|---|
| *03/12* | *9.45* | *Naws y Nadolig* |
| *10/12* | *11.00* | *Parch. Huw Dylan* |
| *17/12* | *11.00* | *Bugail/Gwasanaeth y Plant* |
| *24/12* | *9.45* | *Yr Wyddor Nadoligaidd* |
| *31/12* | *10.00* | *Oedfa'r Fro Ar-Lein* |

***Y Gymdeithas*** Nos Lun 30 Hydref, cynhaliwyd Noson Cwis gyda Bethan, Alys a Leah Evans. Noson addysgiadol a diddorol dros ben. Diolchwyd yn gynnes iawn i bawb gan Siôn Williams.

Nos Lun 13 Tachwedd cafwyd 'Gyrfa Chwilod' gyda Iona a Hywel. Noson hwyliog a swnllyd fel arfer! Cawsom ein stondin i godi arian tuag at y Goeden Nadolig, a gwnaed casgliad tuag at Gofal Dydd y Waen, Llanelwy.



***Llongyfarchiadau*** i Gwenan Pen y Bryn ar ddod yn drydydd yng nghystadleuaeth Cân Werin Bl. 12–21 oed yng Ngŵyl Cerdd Dant Caerdydd, ac i Beth am gael llwyfan efo'r Parti Llefaru.

***Pen blwydd hapus*** hwyr i Rhys Davies, a ddathlodd y deugain yn ddiweddar.

# Ysgol Bryn Clwyd



Mae'r ysgol yn falch iawn o'r rhai a lwyddodd yn y Pedwar Pwrpas.



Cafodd disgyblion 5 brynhawn gwych yn Ysgol Brynhyfryd gan fwynhau prynhawn o ymchwil gwyddoniaeth a safleoedd trosedd.




Cafwyd tipyn o hwyl yn y gweithdy drymio samba gyda Johnny Baxter o Gerdd Cydweithredol Sir Ddinbych.

Daeth Sam Painter, hyfforddwr cymunedol Criced Cymru yng Ngogledd Orllewin Cymru, i'r ysgol i helpu'r disgyblion i ymarfer eu sgiliau batio a dysgu sut i anelu, taflu a dal pêl. Cafodd pawb hwyl yn ei gwmni.



Yn ystod tymor yr haf, ysgrifennodd Dosbarth y Babanod gardiau a rhestr o'r hyn sy'n gwneud brenin da. Daeth cerdyn arbennig iawn yn y post i'r dosbarth – cerdyn diolch gan y Brenin!




Llongyfarchiadau i'r ddau a enillodd yn y gwmp Rhyfeddod Un Frawddeg. Cawson nhw ddiod siocled poeth gyda Mr Lindqvist!

# Ysgol Bryn Clwyd: parhad



Gwnaeth Dosbarth y Babanod gawl pwmpen a'i flasu.

Y dyddiadau pwysig i'r dyddiadur yw:
**Nos Iau, 7 Rhagfyr am 5.30**
Marchnad Nadolig a chyngerdd carolau ar lwyfan coffa Mrs Morris. Croeso cynnes i bawb.

**Dydd Mercher, 13 Rhagfyr**
Taith i weld pantomeim yn Llandudno.

**Dydd Iau, 14 Rhagfyr**
Cinio Nadolig i'r Gymuned.

**Dydd Iau, 21 Rhagfyr**
Yr ysgol yn cau am wyliau'r Nadolig.

**Rhifau ffôn defnyddiol**
Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101
Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068
Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)
Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

# Awyr dywyll

Mae'n werth mynd allan fin nos ac edrych ar y sêr ym mis Rhagfyr. Rydyn ni'n ffodus iawn ein bod ni'n byw ger AHNE Bryniau Clwyd ac AHNE Dyffryn Dyfrdwy, lle mae rhai o'r ardaloedd gorau ag awyr dywyll. Ardaloedd heb lygredd golau na ffynonellau annaturiol o olau yn effeithio ar ein golwg o awyr y nos yw Safleoedd Awyr Dywyll. Mae mwy na 50 y cant o'n bywyd gwyllt yn dod yn fyw yn y nos ac i ni bobl, mae tywyllwch y nos yn hanfodol i rythmau ein cyrff. Mewn trefi a dinasoedd dydi hi byth yn hollol dywyll a gall hyn effeithio ar ein lles. Mae AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy wedi creu Prosiect Nos – partneriaeth awyr dywyll Gogledd Cymru – i helpu i greu'r warchodfa awyr dywyll fwyaf yn y byd, sy'n cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri, Ardaloedd o Harddwch Naturiol ar Ynys Môn, Penrhyn Llŷn, ac wrth gwrs AHNE Bryniau Clwyd.

Ewch allan ar noson glir i gefn gwlad, yn bell o adeiladau a goleuadau llachar. Bydd eich llygaid yn addasu i'r tywyllwch ac yna'n sydyn bydd rhyfeddodau awyr y nos yn dod i'r golwg. Yr adeg hon o'r flwyddyn, chwiliwch am 'seren' ddisglair yn agos at y lleuad – dyma'r blaned Gwener. Fin nos gallwch weld planed Iau yn codi dros Fryniau Clwyd i'r dwyrain. Mae profi awyr y nos yn ein hysbrydoli ac yn rhoi safbwynt gwahanol i ni ar bethau. Yn wir, heb awyr naturiol y nos, ni fyddai teithio o gwmpas y byd wedi bod yn bosib.

Am ragor o wybodaeth am Awyr Dywyll, ewch i wefan Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy: https://www.clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk/projects/dark-skies/?lang=cy.

**Oriau agor Swyddfa'r Post**
**Dyddiau Llun, Mawrth, Iau, Gwener**
**9am–12pm, 2pm–5pm**
**Dyddiau Mercher, Sadwrn 9am–12.30**
**01824 790310**

# Materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Tachwedd Cyngor Cymuned Llandyrnog

- Roedd y Plismon Cymunedol yn methu bod yn bresennol ond anfonodd adroddiad yn manylu am y digwyddiadau yn ein hardal yn ystod misoedd Hydref a Thachwedd:
  - 12/10/23: Ymgais i dwyllo ond arian heb ei drosglwyddo – twyll 'ffrind mewn angen'. Ewch i www.actionfraud.police.uk i weld sut i beidio â chael eich twyllo.
  - 10/11/23: Damwain ffordd ar gornel Green Farm – neb wedi'i anafu. Mae'r Cyngor Cymuned wedi gwneud cais am osod offer cofnodi cyflymdra i weld a oes patrwm pendant.
  - 17/11/23: Dyn yn galw heb apwyntiad ymlaen llaw mewn pick-up Toyota gwyn, yn cynnig gwerthu gatiau fferm, cafnau bwydo a.a. Er ei bod hi'n bosib bod galwadau fel hyn yn ddidwyll, mae troseddwyr yn aml yn gwneud hyn – mynd i dai gwledig (gan swnio'n gredadwy iawn) i edrych o'u cwmpas a gweld pa fath o fesurau diogelwch sydd yno (cloion ar dai allan, llifoleuadau, teledu cylch cyfyng) ac a oes rhywbeth hawdd ei ddwyn yno (trelar heb ei dsiogelu, beiciau cwad heb eu cadw, goriadau wedi'u gadael mewn cerbydau).
  - Wrth iddi dywyllu'n gynharach a'r tywydd ddod yn fwy gwlyb/gwyntog, clowch y tai allan ac eitemau a allai ddenu lleidr. Mae storm yn adeg dda i ddwyn, oherwydd efallai bydd pobl yn rhoi llai o sylw i sŵn clecian a synau rhyfedd eraill.
- Yn dilyn cyfarfod o dîm ariannol y cyngor cymuned, penderfynwyd gofyn i Gyngor Sir Ddinbych am gynnydd yn y praesept, o £10,688 i £11,220. Roedd modd cyfiawnhau hyn oherwydd costau ychwanegol – yswiriant, torri glaswellt, cynnydd yn yr isafswm cyflog. Mae'n gyfystyr â chynnydd o £1.00 yr eiddo.
- Yn dilyn cais gan y trefnydd, penderfynwyd cyfrannu £100 i'r Tuesday Club yn gyfraniad tuag at gost eu cinio Nadolig blynyddol yn y Drovers Arms, Rhewl.
- Cafwyd adroddiad gan aelod y Pwyllgor Safonau, Samuel Jones, ar ôl iddo fod yng nghyfarfod mis Gorffennaf. Dywedodd ynddo fod y gweithgareddau, modd y Cyngh. Butler o gadeirio'r cyfarfod a chyfraniadau adeiladol y Cynghorwyr wedi gwneud argraff fawr arno.
- Roedd hi'n siom fawr fod CSDd wedi penderfynu peidio â rhoi arwydd rhybuddio newydd ger cornel Brynllys, yn lle'r un a dynnwyd oddi yno oherwydd ei fod yn anniogel.
- Mae'r cyngor wedi penderfynu gwneud cais am grant am offer clyweled ychwanegol yn yr Ystafelloedd Coco. Cafwyd sawl llythyr i gefnogi'r cais ac mae'r Clerc yn chwilio am amcanbrisiau.
- Mae'n hynod siomedig bod y rhan fwyaf o



## CC Llandyrnog: parhad

amserlenni bysus lleol naill ai'n hen neu ddim yn bod o gwbl ac mae'r cyngor wedi gwneud cais i'w cyflwyno eto. Mae'n debyg bod yr amserlen yn Morrisons, Dinbych yn fersiwn ddiweddar a bydd hyn yn help mawr i'r rheini sydd heb ffôn clyfar ac yn dibynnu ar amserlenni ysgrifenedig.

- Aeth y Cyngh. Butler i ymweliadd safle yn Fferm y Wern ddechrau mis Tachwedd i gynrychioli barn y cyngor cymuned ar y cais cynllunio am gadw cŵ n ar yr eiddo. Yn dilyn y cyfarfod, cymeradwyodd Cyngor Sir Ddinbych y cais (ond â nifer o amodau) yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ar 8 Tachwedd.
- Hefyd, aeth y Cyngh. Butler i weithdy am goed yn yr AHNE, a oedd yn ddiddorol iawn. Mae'r AHNE wedi creu llyfr lliw o'r coed mwyaf arbennig ynddi, sy'n cynnwys y griafolen pry copyn ym Mhenycloddiau a'r ffynidwydden ar Foel y Parc.




- Mae MHC wedi codi hysbysfwrdd ar gyfer y cyhoedd yn Llangwyfan.
- Penderfynwyd prynu coeden Nadolig 15 troedfedd a bydd y Clerc yn gofyn am ganiatâd i godi'r goeden yn y man arferol o flaen eglwys St Tyrnog.

## Rysáit

**Cawl tomato a moron**

5g/2 owns o fenyn
1 nionyn bach, wedi'i dorri'n fân
175g/6 owns o foron, wedi'u torri'n fân
450g/1 pwys o domatos, wedi'u plicio a'u torri'n fân. Pan nad yw'r tomatos yn eu tymor, dwi'n defnyddio tomatos tun
50g/2 owns o flawd plaen
1.15 litr/2 beint o stoc llysiau cymysg neu gyw iâr
1 llwy de siwgr caster
1 llwy de oregano sych
½ llwy de paprica
½ llwy de mês – *mace*
2 lwy fwrdd piwrî tomato
Halen a phupur
Hufen sengl

Toddwch y menyn a ffrïwch y llysiau'n ysgafn mewn sosban.
Trowch y blawd i mewn iddyn nhw, ac ychwanegwch y stoc, y siwgr, y piwrî tomato, halen a phupur, gan droi'r cymysgedd drwy'r amser.
Dewch â'r cyfan i'r berw, gostyngwch y gwres a gorchuddiwch y sosban. Mudferwch y cymysgedd am 30 munud.
Blendiwch y cawl mewn hylifydd.
Rhowch y cawl yn ôl yn y sosban a'i gynhesu eto nes ei fod yn berwi.
Gweinwch y cawl mewn powlenni unigol, gan droi llwyaid bwrdd o hufen i bob un.
Digon i 4–6.



# Yr Ystafelloedd Coco




Roedd llun a ddangoswyd yn ddiweddar ar y cyfryngau cymdeithasol gan Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru – *The Cocoa Rooms on High Street, St Asaph, c.1910,* wedi ysgogi cryn drafodaeth am darddiad ein Hystafelloedd Coco ni yn Llandyrnog.

Eglura'r archif fod y syniad yn tarddu o Fudiad Dirwest Oes Fictoria – mudiad cymdeithasol oedd yn erbyn yfed alcohol. Roedd y Mudiad Dirwest yn fudiad poblogaidd a'i bwyslais ar lwyrymwrthod ag alcohol. Yn sgil hyn, ymddangosodd ystafelloedd te a choco fel man cyfarfod yn lle'r dafarn leol. Adeiladwyd Ystafelloedd Coco a Darllen Llandyrnog yn 1885. Ar y dechrau, Rheithor yr eglwys oedd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r lle, ond yn 1894, daeth Deddf Seneddol oedd yn caniatáu trosglwyddo'r adeilad i'r Cyngor Plwyf. Ar ddechrau'r 1920au ffurfiwyd Clwb Cymdeithasol Llandyrnog a Llangwyfan i ddynion ifanc, a gweithgareddau fel biliards a *bagatelle*, a phapurau dyddiol ar gael yn yr ystafell ddarllen. Y tâl aelodaeth oedd 3 swllt am 6 mis.

Gostyngodd nifer yr aelodau yn y Clwb Cymdeithasol yn ystod yr Ail Ryfel Byd am fod cymaint ohonyn nhw yn y Lluoedd Arfog. Beth bynnag, parhaodd yr Ystafelloedd Coco i fod yn ganolog i'r gymuned e.e. cynnal boreau coffi, cyfarfodydd y Cyngor Cymuned a nifer o grwpiau eraill. Newidiodd pethau ar ôl Cofid. Yn dilyn y cyfnod clo a'r angen i gadw pellter cymdeithasol, gwelwyd bod y lle'n rhy fach i gynnal rhai gweithgareddau roedd angen fwy o le arnynt. Heddiw mae'r cyfarfodydd mwyaf, fel boreau coffi, wedi symud i Neuadd y Pentre, ond mae cyfarfodydd y grwpiau llai fel Tuesday Club, Gild Trefoil, Sefydliad y Merched, y Clwb Llyfrau ayb yn ôl yno yn dal i fwynhau awyrgylch mwy agos atoch yn Ystafelloedd Coco a Darllen Llandyrnog.

O.N. Does dim gwirionedd yn y si fod yna dwnnel yn cysylltu'r Ystafelloedd Coco â'r *Golden Lion*…. hyd y gwn i!!

*Gwen Butler*

**Blue Hand Mowers**

Repair and servicing of all garden machinery

Lawn mowers and lawn tractors
Chain saws
Hedge cutters
Strimmers
Disc cutters
Quad bikes
Leaf blowers
Hand tools

Collection and delivery service available

Situated on 'Blue Hand Corner' or find us on Google
www.bluehandmowers.co.uk
enquiries@bluehandmowers.co.uk
☎0775 20 35 462

*Argraffwyd gan Mike Neuman www.neumannprintersdenbigh.co.uk 01745 814067*